**Atodiad 1 : Amcanion Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau**

## Amcanion

Wrth ddatblygu'r cynigion cysyniad bydd angen i'r gwaith ystyried y weledigaeth ynghyd a'r amcanion isod :

1. Bydd angen i'r cyfleuster ddarparu ar gyfer amrediad o weithgareddau yn cynnwys:
   - Digwyddiadau, pencampwriaethau a regatas;
   - Hyfforddi sgwad dingi elitaidd;
   - Digwyddiadau hyfforddi ieuenctid;
   - Cyfleusterau angorfeydd a chyfleusterau cysylltiol ar gyfer ymwelwyr;
   - Hyfforddiant a digwyddiadau ar gyfer rhai gydag anableddau;
   - Diddordebau wedi eu harwain gan y gymuned;
   - Gweithgareddau dŵr eraill ;
   - Diddordebau awyr-agored, hyfforddiant ac addysg;
   - Cynadleddau, seminarau a chyfarfodydd;

2. Mae'n hanfodol i'r dyluniadau cysyniad ystyried yr isadeiledd a'r cyfleusterau angenrheidiol i alluogi amrediad o weithgareddau gael eu cwblhau yn llwyddiannus ac i gyrraedd neu ragori disgwyliadau;

3. Adnabod y cyfyngiadau sydd yn bodoli ar y safle ac wrth geisio uchafu cyfleon i wella, datblygu neu leddfu'r rhain. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) y canlynol:
   - Cyfyngiadau ar ddyfnder dŵr mynediad Harbwr Pwllheli;
   - Dynodiadau amgylcheddol;
   - Gorlifdir;
   - Llwybr Mynediad (yn cynnwys mynediad cyhoeddus)

4. Datblygu cyfleusterau sydd yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac economaidd drwy ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol;

5. Hanfodol fod y dyluniadau yn ystyried yr angen i'r cyfleusterau fod yn addas ar gyfer anghenion gofodol gwahanol a materion tymhorol.

6. Y gallu i fod yn addas ar gyfer pob lefel o hwylio, o'r sgwadiau elitaidd i ddechreuwyr a rhai gydag anawsterau.

7. Annog a hwyluso pobl ifanc i hwylio.

8. Uchafu'r budd economaidd i Ben Llŷn gyda ffocws arbennig ar ardal Glan y Don, tref Pwllheli a'r sector forwrol. Yn arbennig bydd hyn drwy ddatblygu digwyddiadau, cystadlaethau a gweithgareddau, gan adeiladu ar lwyddiant Hafan Pwllheli, drwy gyflwyno angorfeydd ychwanegol i ymwelwyr.

9. Creu budd drwy ddarpariaeth a chyfleusterau addysg a hyfforddiant.

10. Cryfhau'r cyswllt ffisegol ac anuniongyrchol gyda chanol tref Pwllheli.

11. Ystyried a gwneud y defnydd gorau o'r isadeiledd ac adeiladau presennol ar benrhyn Glan y Don.

12. Ychwanegu gwerth ac integreiddio gyda chyfleusterau sydd yn bodoli eisoes gan Blas Menai.

13. Adeiladu ar weithgareddau presennol a llwyddiannus sydd ym Mhwllheli.

14. Hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gyfleusterau addysgol yn darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys hyfforddiant gan ac i hyfforddwyr Cymraeg.

15. Cyfleuster i'w ddylunio i gyrraedd amcanion datblygu cynaliadwy wedi eu gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys rhagoriaeth BREEAM a charbon niwtral.

16. Datblygu cyfleuster a fydd yn ffocws ar gyfer gweithgareddau yn codi o themâu, strategaethau ac agenda allweddol a gaiff eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yn cynnwys:
    - Tŵf a datblygiad y sector morwrol;
    - Cymru'n Un ;
    - Cymru: Economi yn Ffynnu;
    - Dringo'n Uwch Strategaeth a Chynllun Gweithredu ;
    - Regata Cymru ;
    - Her Iechyd Cymru ;
    - Agenda Twristiaeth – Croeso Cymru ;
    - Iaith Pawb - Strategaeth yr Iaith Gymraeg;
    - Cynllun Gofodol Cymru;
    - Dal y Don – Strategaeth Chwaraeon Dŵr i Gymru;
    - Dechrau Byw'n Wahanol;
    - Datblygiad y cwricwlwm cenedlaethol - yr angen i gynyddu lefel gweithgaredd awyr agored ar gyfer holl blant ysgol, a mentrau eraill i gyflwyno hwylio a gweithgareddau dŵr fel rhan o'r cwricwlwm;

17. Darparu adnodd ar gyfer amrediad o ddefnyddiau cymunedol yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:
    - Clybiau gweithgareddau dŵr eraill;
    - Clybiau Cymunedol;
    - Digwyddiadau a chynhadledau;
    - Cyfleusterau addysg a hyfforddiant